Elin Jones AS, Llywydd
Senedd Cymru
Elin Jones MS, Presiding Officer
Welsh Parliament

4 Gorffennaf 2022

Datganiad y Llywydd am Gymhwysedd Deddfwriaethol

Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Yn fy marn i:

- Byddai'r rhan fwyaf o ddarpariaethau Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), a gyflwynwyd ar 4 Gorffennaf 2022, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.
- I'r graddau y mae Atodlen 13 i'r Bil, o'i darllen gydag adrannau 178 a 201, yn dileu swyddogaethau Gweinidog y Goron yn Neddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008 a swyddogaethau'r Arglwydd Ganghellor yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 a Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig a Ardaloedd Cadwraeth) 1990, ni fyddai'r darpariaethau hynny yn y Bil o fewn cymhwysedd y Senedd. Y rheswm am hyn yw bod angen cydsyniad Llywodraeth y DU er mwyn iddynt fod o fewn cymhwysedd y Senedd ac nid yw'r cydsyniad angenrheidiol hwnnw wedi'i sicrhau ar hyn o bryd.

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS
Y Llywydd